Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Gwaith dilynol ar theatrau llawdriniaethau

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**Blwyddyn archwilio:** 2013-14

**Cyhoeddwyd:** Gorffennaf 2014

**Cyfeirnod y ddogfen:** 424A2014

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Stephen Lisle a Tracey Davies.

# Cynnwys

Bu rhai ymdrechion lleol i wella theatrau ond ar y cyfan, ni welwyd gwelliant mawr ac erys rhai rhwystrau sylfaenol.


| | |
|---|---|
| Gwaith dilynol ar theatrau llawdriniaethau | |
| Cefndir | 4 |
| Canfyddiadau allweddol | 4 |
| Gwelwyd rhai gwelliannau ers 2011 ond erys problemau ynglŷn ag effeithlonrwydd gwasanaethau llawfeddygol, defnydd annigonol o ymyriadau diogelwch a rhai safbwyntiau cymysg gan staff | 4 |
| Mae diffyg arweinyddiaeth ganolog a phroblemau mawr o ran data wedi bod yn rhwystrau sylfaenol i wella | 4 |
| Argymhellion i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 5 |
| Atodiadau | |
| Sleidiau yn amlinellu canfyddiadau manwl o'r adroddiad | 7 |

# Gwaith dilynol ar theatrau llawdriniaethau

## Cefndir

1. Mae theatrau llawdriniaethau yn rhan hanfodol o ofal cleifion. Dylai theatrau fod yn gosteffeithiol, gan gefnogi'r gwaith o gyflawni targedau amseroedd aros a chyfrannu at ofal cleifion o ansawdd uchel. Mae theatrau yn dibynnu'n fawr ar ffactorau allanol. Os bydd prosesau cyn llawdriniaeth/ôl-lawdriniaeth yn is na'r safon, bydd hyn yn effeithio ar theatrau.
2. Yn 2011, adolygodd Swyddfa Archwilio Cymru theatrau llawdriniaethau ledled Cymru. Ym Mwrdd Iechyd Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd), daethom i'r casgliad, er bod mwy o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i wella perfformiad theatrau a llawdriniaethau dydd, bod angen cymryd camau pendant i wella ansawdd gwybodaeth theatrau, ymdrin â meysydd nad ydynt yn perfformio cystal ac ymateb i bryderon a godir gan y staff.
3. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud gwaith dilynol ar theatrau yn Hywel Dda a phob bwrdd iechyd arall ac eithrio Powys mewn ymateb i geisiadau gan Bwyllgorau Archwilio, swyddogion gweithredol ac eraill, a chydnabyddiaeth fod perfformiad theatrau mewn sawl ardal yng Nghymru yn dal yn is na'r safon.
4. Ein nod oedd ateb y cwestiwn canlynol: **A yw'r Bwrdd Iechyd yn adeiladu ar ein hargymhellion blaenorol ac yn darparu gwasanaethau theatrau effeithlon o ansawdd uchel?**

## Canfyddiadau allweddol

5. Mae'r tabl isod yn crynhoi ein prif ganfyddiadau. Ceir canfyddiadau manwl yn y sleidiau sydd wedi'u hatodi i'r crynodeb hwn.

| |
|---|
| **Casgliad cyffredinol:**<br>**Bu rhai ymdrechion lleol i wella theatrau ond ar y cyfan, ni welwyd gwelliant mawr ac erys rhai rhwystrau sylfaenol.** |
| **Rhan 1: Faint o newid a wnaed ers 2011** |
| **Gwelwyd rhai gwelliannau ers 2011 ond erys problemau ynglŷn ag effeithlonrwydd gwasanaethau llawfeddygol, defnydd annigonol o ymyriadau diogelwch a rhai safbwyntiau cymysg gan staff:**<br>• Bu ymdrechion lleol i wella effeithlonrwydd ond gellir bod yn fwy effeithlon ar sawl cam yn ystod taith lawfeddygol y claf.<br>• Er bod ymyriadau diogelwch allweddol yn cael eu defnyddio fwyfwy mewn theatrau, gwelir yn aml na chânt eu defnyddio'n gywir.<br>• Mae rhai safbwyntiau negyddol ynglŷn â lefelau staffio a chyfathrebu, ond cafwyd rhai sylwadau cadarnhaol am waith tîm a'r diwylliant diogelwch. |

**Casgliad cyffredinol:**
**Bu rhai ymdrechion lleol i wella theatrau ond ar y cyfan, ni welwyd gwelliant mawr ac erys rhai rhwystrau sylfaenol.**

**Rhan 2: Rhwystrau i gynnydd**

**Mae diffyg arweinyddiaeth ganolog a phroblemau mawr o ran data wedi bod yn rhwystrau sylfaenol i wella:**

- Ni roddwyd blaenoriaeth gorfforaethol i theatrau ac mae'r diffyg ysgogiad ac arweinyddiaeth ganolog hyn wedi bod yn rhwystr sylfaenol i wella.
- Ceir problemau mawr o ran data ac mae ymdrechion lleol i ysgogi gwelliant yn dioddef am nad oes digon o wybodaeth safonol ar gael.

# Argymhellion i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**A1 Rhestr wirio Sefydliad Iechyd y Byd a briffiadau:**

a. Dylai uwch staff nyrsio a staff meddygol dystio ac asesu'n feirniadol y defnydd a wneir o'r rhestr wirio a'r briffiadau yn rheolaidd. Dylid rhoi adborth adeiladol, er mwyn sicrhau bod manteision yr ymyriadau hyn fel cymhorthion i dimau ac nid dim ond rhestrau gwirio syml yn cael eu hyrwyddo.

b. Ystyried defnyddio arfer da sydd ar waith ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf lle mae meddygon iau yn cynnal archwiliadau cudd o'r rhestr wirio a'r briffiadau.

c. Dylid gofyn i lawfeddygon ac anesthetyddion sydd o blaid y rhestr wirio a'r briffiadau weithio fel pencampwyr i ennyn cefnogaeth eu cydweithwyr.

d. Dylai timau theatrau gydweithio i deilwra'r rhestr wirio er mwyn ei defnyddio yn eu theatrau. Bydd hyn yn helpu i wneud y rhestr yn fwy perthnasol a dylid annog timau i sicrhau bod y rhestr wirio yn gweithio iddynt hwy.

**A2 Adrodd ar ddigwyddiadau a dysgu ohonynt:**

a. Defnyddio siartiau rheolaeth prosesau ystadegol yn rheolaidd er mwyn helpu i ganfod patrymau a thueddiadau o ran adrodd ar ddigwyddiadau.

b. Dylai'r tîm pryderon corfforaethol weithio gyda thimau theatrau o bob safle i gytuno ar gyfres o gamau gweithredu er mwyn ceisio gwella'r adborth a roddir i staff sy'n rhan o ddigwyddiadau ac atgyfnerthu'r trefniadau sydd ar waith i ddysgu o ddigwyddiadau.

**A3 Lefelau staffio:**

a. Dylai asesiadau o lefelau staffio a gaiff eu cynnal yn gyson o fewn y BI ystyried yn benodol p'un a oes sail i bryderon am brinder staff mewn theatrau ac, os oes angen, dylid cynyddu lefelau staffio er mwyn sicrhau diogelwch.

b. Dylai'r BI gasglu data er mwyn mesur i ba raddau y mae oedi ar y wardiau yn effeithio ar theatrau, er mwyn llywio ystyriaethau ehangach y BI ynglŷn â lefelau staffio wardiau.

c. Dylai pob safle aciwt weithio gydag Adnoddau Dynol i ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol er mwyn gwella trefniadau cynllunio olyniaeth o fewn timau theatrau.

| | | |
|---|---|---|
| **A4** | **Gwybodaeth am berfformiad theatrau:** | |
| | Fel blaenoriaeth, dylai'r BI gynnull grŵp, gydag aelodau o'r tîm gweithredol, staff theatr o bob safle a thîm Myrddin, er mwyn cydweithio i gyflawni canlyniad cyffredin, sef sicrhau bod gwybodaeth o ansawdd dda am berfformiad ar gael yn hawdd a'i bod yn cael ei defnyddio i wella theatrau. | |
| **A5** | **Ysgogiad ac arweinyddiaeth ganolog:** | |
| | a. | Dylai'r BI gynnull grŵp theatrau proffil uchel ar draws y BI cyfan, a gaiff ei arwain gan arweinydd gweithredol penodol ar gyfer theatrau, a fydd yn sbarduno gwelliannau i theatrau ac yn rhannu gwersi i'w dysgu â'r sefydliad cyfan. |
| | b. | Dylid adfer y grwpiau defnyddwyr theatrau hefyd ymhob safle aciwt er mwyn gwella trafodaethau amlddisgyblaethol, ystyried data ar berfformiad ac ysgogi gwelliannau lleol i theatrau. |

Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Stephen Lisle, Arbenigwr Perfformiad
(Ffôn:  029 2032 0500/stephen.lisle@wao.gov.uk).

# Atodiadau

## Sleidiau yn amlinellu canfyddiadau manwl o'r adroddiad



# Cynnwys


1. Cefndir
2. Nodau'r archwiliad
3. Ein dull gweithredu
4. Prif gasgliad
5. Is-gasgliadau
6. Canfyddiadau manwl
7. Argymhellion

## Cefndir

- Mae gwasanaethau theatrau llawdriniaethau yn **rhan hanfodol o ofal cleifion**. Dylai theatrau fod yn gosteffeithiol, gan gefnogi'r gwaith o gyflawni targedau amseroedd aros a chyfrannu at ofal cleifion o ansawdd uchel.
- Mae theatrau yn **dibynnu'n fawr ar ffactorau allanol**. Os bydd prosesau cyn llawdriniaeth/ôl-lawdriniaeth yn is na'r safon, bydd hyn yn effeithio ar theatrau.
- Dywedodd adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru yn **2011**, er bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y BI) yn rhoi mwy o flaenoriaeth i wella perfformiad theatrau a llawdriniaethau dydd, bod angen cymryd camau pendant i wella ansawdd gwybodaeth theatrau, ymdrin â meysydd nad ydynt yn perfformio cystal ac ymateb i bryderon a godir gan y staff.
- Mae **Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud gwaith dilynol** ar theatrau yn y BI a phob bwrdd iechyd arall, ac eithrio Powys, mewn ymateb i geisiadau gan Bwyllgorau Archwilio, swyddogion gweithredol ac eraill, a chydnabyddiaeth fod perfformiad theatrau mewn sawl ardal yng Nghymru yn dal yn is na'r safon.

Sleid 3

## Nodau'r archwiliad

- Mae gan y gwaith dilynol dri maes penodol:

| Cynnydd ers 2011 | Effeithlonrwydd theatrau | Ansawdd a diogelwch |
| --- | --- | --- |
| • Adolygiad lefel uchel yn erbyn ein hargymhellion.<br>• Canolbwyntio ar y rhwystrau i wella. | • Mesur agweddau ar effeithlonrwydd theatrau.<br>• Cymharu perfformiad â meincnodau. | • Adolygu nifer fach o faterion ansawdd a diogelwch.<br>• Canolbwyntio ar restr wirio Sefydliad Iechyd y Byd, briffiadau a digwyddiadau. |

- Prif gwestiwn yr astudiaeth – **A yw'r BI yn adeiladu ar ein hargymhellion blaenorol ac yn darparu gwasanaethau theatrau effeithlon o ansawdd uchel?**

**Sleid 4**

## Ein dull gweithredu

- Hunanasesiad yn erbyn yr argymhellion blaenorol.
- Adolygu dogfennau.
- Defnyddio data sydd ar gael yn genedlaethol ar ddigwyddiadau ac effeithlonrwydd.
- Arolwg staff: 139 o ymatebion (21 o lawfeddygon a 19 o anesthetyddion)
- Cyfweliadau â 50 o aelodau o staff (arweinydd gweithredol, uwch reolwyr, staff theatrau, llawfeddygon ac anesthetyddion)
- Trafodaethau ag Uned Gyflawni Llywodraeth Cymru, Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru, a'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd.
- Fodd bynnag, <u>nid oedd y BI wedi llwyddo i ateb ein cais</u> am ddata ynglŷn â'r defnydd a wneir o theatrau.

Gwaith dilynol ar theatrau | Sleid 5

## Y prif gasgliad

**Bu rhai ymdrechion lleol i wella theatrau ond ar y cyfan, ni welwyd gwelliant mawr ac erys rhai rhwystrau sylfaenol.**

Gwaith dilynol ar theatrau

Sleid 6

## Is-gasgliadau

**Rhan 1: Faint o newid a wnaed ers 2011**

**Gwelwyd rhai gwelliannau ers 2011 ond erys problemau ynglŷn ag effeithlonrwydd gwasanaethau llawfeddygol, defnydd annigonol o ymyriadau diogelwch a rhai safbwyntiau cymysg gan staff.**

**Rhan 2: Rhwystrau i gynnydd**

**Mae diffyg arweinyddiaeth ganolog a phroblemau mawr o ran data wedi bod yn rhwystrau sylfaenol i wella.**

Gwaith dilynol ar theatrau

Sleid 7

## Strwythur Rhan 1


**Gwelwyd rhai gwelliannau ers 2011 ond erys problemau ynglŷn ag effeithlonrwydd gwasanaethau llawfeddygol, defnydd annigonol o ymyriadau diogelwch a rhai safbwyntiau cymysg gan staff.**

- 1A. Bu ymdrechion lleol i wella effeithlonrwydd ond gellir bod yn fwy effeithlon ar sawl cam yn ystod taith lawfeddygol y claf.
- 1B. Er bod ymyriadau diogelwch allweddol yn cael eu defnyddio fwyfwy mewn theatrau, gwelir yn aml na chânt eu defnyddio'n gywir.
- 1C. Mae rhai safbwyntiau negyddol ynglŷn â lefelau staffio a chyfathrebu, ond cafwyd rhai sylwadau cadarnhaol am waith tîm a'r diwylliant diogelwch.

Sleid 8

## 1A. Bu ymdrechion lleol i wella effeithlonrwydd ond gellir bod yn fwy effeithlon ar sawl cam yn ystod taith lawfeddygol y claf

Roedd staff yn gadarnhaol am y drefn asesu cyn llawdriniaethau ac mae gwaith yn mynd rhagddo i safoni prosesau ymhellach ar draws y BI.




Mae canlyniadau'r arolwg staff yn dangos eu bod yn cytuno ar y cyfan bod proses sgrinio a chyn-asesu effeithiol ar waith.

**Gwaith dilynol ar theatrau** Sleid 9

## 1A. Bu ymdrechion lleol i wella effeithlonrwydd ond gellir bod yn fwy effeithlon ar sawl cam yn ystod taith lawfeddygol y claf


Mae'r BI wedi cymryd rhai camau i gynllunio rhestrau'n well ond cawsom wybod gan staff am newidiadau hwyr i restrau a rhestrau rhy uchelgeisiol.

- Mae'r camau'n cynnwys: adolygiad o drefniadau cynllunio rhestrau yn Sir Benfro a rhywfaint o waith i ddadansoddi faint o amser y mae'n ei gymryd i gynnal llawdriniaethau ar gyfartaledd.
- Mae'r arolwg staff yn dangos bod 44 y cant yn anghytuno/anghytuno'n gryf bod rhestrau yn cael eu cynllunio'n effeithiol.

**Caiff y rhan fwyaf o restrau theatrau eu cynllunio'n effeithiol.**






Sleid 10


[Cynllunio rhestrau: Sylwadau gan staff]
Sir Benfro
"Rhestrau afrealistig. Dylai'r rheolwr theatr gytuno ar y rhestrau ddiwrnod ymlaen llaw."
"Mae angen sicrhau bod systemau cyfathrebu gwell ar waith rhwng staff gweinyddu a rheoli a chlinigwyr wrth lunio rhestrau cleifion."
"Mae rhestrau'n ymddangos ar Myrddin ond nid ydynt wedi'u cloi ac maen nhw'n newid yn aml."
"Rydym yn chwarae rhan flaenllaw yn y broses o lunio rhestrau" – Meddyg ymgynghorol
Sir Gaerfyrddin
"Angen mewnbwn clinigol wrth drefnu rhestrau llawdriniaeth."
"Dyw rhai rhestrau byth yn cael eu cloi. Mae rhestrau gynecolegol bob amser yn gor-redeg."
"Mae rhai rhestrau yn rhy llawn."
"Mae newidiadau'n digwydd ar ddiwrnod y llawdriniaeth"
Ceredigion
"Fetio'r rhestrau theatr."
"Mae rhai llawfeddygon yn canslo pobl ar ddiwedd pob rhestr."
"Byddai modd gwella effeithlonrwydd drwy gynllunio rhestrau theatr yn well."
"Mae angen rhestrau llawdriniaeth realistig, er mwyn sicrhau bod llai o lawdriniaethau'n cael eu canslo."
"Mae angen cynllunio'n fwy effeithlon, gan ymgynghori â'r llawfeddygon sy'n gwneud y rhestr."
"Dylai meddygon ymgynghorol gysylltu â'r adran derbyniadau canolog ynglŷn â rhestrau."
"Dylai'r rhestrau gael eu cymeradwyo gan feddygon ymgynghorol ond dwi ddim yn argyhoeddedig eu bod yn gwneud hyn."
Sleid 11

## 1A. Bu ymdrechion lleol i wella effeithlonrwydd ond gellir bod yn fwy effeithlon ar sawl cam yn ystod taith lawfeddygol y claf

Cymysg oedd barn y staff ar effeithiolrwydd 'derbyniadau ar yr un diwrnod' ac mae perfformiad yn <u>is na chyfartaledd Cymru</u>.




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Cyfradd derbyniadau ar ddiwrnod y llawdriniaeth*

**Gwaith dilynol ar theatrau** **Sleid 12**

## 1A. Bu ymdrechion lleol i wella effeithlonrwydd ond gellir bod yn fwy effeithlon ar sawl cam yn ystod taith lawfeddygol y claf

**Sir Gaerfyrddin**

YCG – "mae gan y rhan fwyaf o'r wardiau ardal arbennig ar gyfer derbyniadau ar yr un diwrnod".

YCG – "mae gan yr adran gynecoleg drolïau pedwar diwrnod sydd wedi'u clustnodi ond weithiau mae cleifion yn cael eu hanfon yma."

**Sir Benfro**

"Mae'n system dda sy'n dda i'r cleifion hefyd."

"Mae'r ardal yn rhy fach – diffyg preifatrwydd."

**Ceredigion**


"Agorodd lolfa derbyniadau newydd ym mis Rhagfyr 2013. Mae'n gweithio'n dda iawn."

"Anaml iawn y mae cleifion yn dod i mewn y noson cyn llawdriniaeth."

Sleid 13

## 1A. Bu ymdrechion lleol i wella effeithlonrwydd ond gellir bod yn fwy effeithlon ar sawl cam yn ystod taith lawfeddygol y claf

Mae cyfraddau achosion dydd wedi gwella ac maent yn uwch na chyfartaledd Cymru.




Mae'r graff yn dangos bod cyfraddau achosion dydd wedi gwella'n sylweddol ar gyfer y 50 o driniaethau sy'n rhan o fasged Cymdeithas Llawdriniaethau Dydd Prydain.

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

- Mae hyd arhosiadau yn gyson llai na chyfartaledd Cymru hefyd.

## 1A. Bu ymdrechion lleol i wella effeithlonrwydd ond gellir bod yn fwy effeithlon ar sawl cam yn ystod taith lawfeddygol y claf

- Fodd bynnag, dywedodd staff wrthym y gellid gwella llawdriniaethau dydd drwy wneud y canlynol: diogelu theatrau dydd (yn enwedig yn YTP ac YCB ar gyfer llawdriniaethau dydd gwirioneddol), ac osgoi cymysgu cleifion mewnol ac achosion dydd ar yr un rhestrau.

**Sir Gaerfyrddin**

YTP – "Gallem ryddau sesiynau (sy'n cael eu defnyddio ar gyfer anestheteg lleol, rhestrau poen a lithotripsi) a chynyddu capasiti ar gyfer llawdriniaethau dydd dilys"

YCG – "gwneir defnydd da o'r uned llawdriniaethau dydd".

**Sir Benfro**

Dywedodd rhai aelodau o staff y gellid gwella cyfraddau achosion dydd a darparu mwy o welyau ar gyfer llawdriniaethau dydd.

**Ceredigion**

Dywedodd sawl aelod o staff na ddylai cleifion mewnol ac achosion dydd gael eu cymysgu ar yr un rhestrau.

## 1A. Bu ymdrechion lleol i wella effeithlonrwydd ond gellir bod yn fwy effeithlon ar sawl cam yn ystod taith lawfeddygol y claf

Mae'r BI wedi cymryd rhai camau i sicrhau bod theatrau'n cael eu defnyddio'n well ond nid ydym wedi llwyddo i asesu'r defnydd a wneir ohonynt oherwydd problemau data.

- Mae mentrau wedi cynnwys: y Rhaglen Trawsnewid Theatrau, defnyddio byrddau problemau, defnyddio meddygon ymgynghorol allanol i adolygu theatrau, ffyrdd newydd o weithio (h.y. diwrnodau tair sesiwn, pum rhestr ar y cyd).

OND…

- Mae effaith y mentrau hyn yn aneglur am nad oedd y BI wedi gallu casglu'r data defnydd angenrheidiol o'i systemau.
- Mae byrddau iechyd eraill wedi llwyddo i gyflwyno'r data hyn.
- Rhoddir mwy o sylw i'r problemau data yn rhan 2 o'r cyflwyniad.

## [Y materion a godwyd amlaf pan ofynnwyd i staff sut y gellid gwella defnydd]

| Categori | Nifer y sylwadau |
|---|---|
| Cynyddu nifer/argaeledd gwelyau | 70 |
| Cynyddu lefelau staffio (staff theatrau a staff wardiau) | 67 |
| Cynllunio rhestrau'n well | 27 |
| Atal problemau ar y ward ac archwiliadau cyn llawdriniaethau | 23 |
| Newid/glynu wrth amseroedd dechrau a gorffen | 23 |
| Cynyddu cyfraddau llawdriniaethau dydd | 15 |
| Rheoli theatrau'n well yn gyffredinol | 11 |

*Mae'r tabl hwn yn rhoi dadansoddiad o'r atebion testun rhydd a ddarparwyd yn yr arolwg staff.

Sleid 17

## 1A. Bu ymdrechion lleol i wella effeithlonrwydd ond gellir bod yn fwy effeithlon ar sawl cam yn ystod taith lawfeddygol y claf

Mae rhestrau weithiau'n dechrau'n hwyr am amrywiaeth o resymau gan gynnwys oedi ar y wardiau, problemau gydag archwiliadau cyn llawdriniaethau ac argaeledd gwelyau.

- Nid oeddem wedi llwyddo i gyfrif faint o restrau a oedd wedi dechrau'n hwyr oherwydd problemau data.
- Roedd gan y staff farn ar y rhesymau pam bod rhestrau'n dechrau'n hwyr:

**Sir Gaerfyrddin**

YTP – "Gall gymryd amser i gael cydsyniad cleifion."
YTP – "Weithiau mae problemau ar y wardiau."
YCG – "Mae rowndiau wardiau cyn y rhestrau yn cymryd amser."
YCG – "Mae oedi ar y wardiau."
YCG – "Mae prinder porthorion yn broblem. Yn enwedig dros y penwythnosau."

**Sir Benfro**

"Mae'r rhan fwyaf o restrau'n dechrau'n hwyr am nad yw'r meddygon yn barod ac yn dal wrthi'n gwneud gwaith gweinyddol."

"Mae'r rhan fwyaf o'r achosion o oedi yn digwydd oherwydd dyrannu gwelyau."

**Ceredigion**

"Prinder gwelyau. Gallwn ni aros tua awr."

"Efallai nad yw pob claf wedi rhoi cydsyniad neu efallai bod problemau eraill cyn y llawdriniaeth."




## 1B. Er bod ymyriadau diogelwch allweddol yn cael eu defnyddio fwyfwy mewn theatrau, gwelir yn aml na chânt eu defnyddio'n gywir

World Health Organization

Mae rhestr wirio Sefydliad Iechyd y Byd yn cael ei defnyddio'n fwy rheolaidd ond yn aml ni chaiff ei defnyddio yn y ffordd orau i wella diogelwch cleifion.

- Cyd-destun: Mae'r *5 Cam at Lawdriniaeth Fwy Diogel* yn cynnwys: brîff tîm cyn cyflwyno rhestr, y tri cham yn rhestr wirio Sefydliad Iechyd y Byd ('Sign-in', 'Time-out', 'Sign-out') ac ôl-friffiad tîm ar ôl cyflwyno rhestr.
- Mae'r rhestr wirio bellach yn rhan o ddogfennau cleifion safonol y BI a chaiff ei chwblhau yn achos y rhan fwyaf o gleifion.
- Dywedodd rhai aelodau o staff fod y rhestr wirio bellach yn dod yn rhan o arferion gwaith cyffredin.

Fodd bynnag…

**Gwaith dilynol ar theatrau** **Sleid 19**




## 1B. Er bod ymyriadau diogelwch allweddol yn cael eu defnyddio fwyfwy mewn theatrau, gwelir yn aml na chânt eu defnyddio'n gywir.

World Health Organization

- Ni allai'r BI ddarparu data ar ganran y llawdriniaethau lle defnyddir y rhestr wirio. Roedd rhai byrddau iechyd eraill wedi llwyddo i ddarparu'r data hyn.
- Yn aml, ni chaiff y rhestr wirio ei chwblhau fel tîm a chaiff rhai o'r cwestiynau eu hepgor weithiau.
  - Yn aml nid yw'r tîm amlddisgyblaethol llawn yn bresennol.
  - Mae aelodau o staff theatr bron bob amser yn cyfrannu ond efallai nad yw llawfeddygon ac anesthetyddion yn cyfrannu cymaint.
  - Cawsom wybod bod rhai cwestiynau yn cael eu ticio ond nad ydynt yn cael eu gwirio'n llawn.
- Mae rhai rhwystrau allweddol i wella'r ffordd y caiff y rhestr wirio ei defnyddio.
  - Nid yw uwch staff yn rhoi sylw i'r rhestr wirio bob amser ond mae rhywfaint o dystiolaeth i ddangos bod hyn yn digwydd yn Sir Benfro.
  - Penodwyd cynrychiolydd meddygol i arwain y gwaith o gyflwyno'r rhestr wirio ond ni welwyd arweinyddiaeth feddygol ers hynny.
  - Gall fod yn arfer da teilwra'r rhestr i'w defnyddio'n lleol. Prin yw'r enghreifftiau yn HDd.
  - Dywedodd meddygon eu bod yn teimlo'n annifyr yn gorfod cyflwyno eu hunain – ond nid oes angen gwneud hyn bob amser ac mae hyn yn dangos diffyg dealltwriaeth.





## 1B. Er bod ymyriadau diogelwch allweddol yn cael eu defnyddio fwyfwy mewn theatrau, gwelir yn aml na chânt eu defnyddio'n gywir.


World Health Organization

Dim ond mewn nifer fach o theatrau y defnyddir briffiadau tîm cyn cyflwyno rhestr ac ar y cyfan, ni chynhelir unrhyw ôl-friffiadau.


- Cynhelir briffiadau cyn cyflwyno rhestr mewn rhai theatrau ond nid ydynt yn rhan o'r ymarfer prif ffrwd.
- Yn aml, nid yw'r briffiadau yn rhai amlddisgyblaethol ac felly nid ydynt yn cyflawni'r diben – mae staff y theatr yn cyfarfod ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r meddygon yn ddiweddarach. Gall fod yn anodd i'r meddygon gyrraedd y briffiadau ar amser ond mae'r briffiadau'n werthfawr am eu bod yn cynnwys y tîm cyfan.
- Ar y cyfan, ni chynhelir briffiadau ar ôl cyflwyno rhestr – mae hyn yn unol â'r rhan fwyaf o fyrddau iechyd eraill yng Nghymru.

**Gwaith dilynol ar theatrau** **Sleid 21**


[Ffocws ar y rhestr wirio a briffiadau]
Mae staff yn dilyn rhestrau gwirio llawdriniaethol cyn pob achos theatr.
Cytuno'n Gryf (64) 46%
Cytuno (56) 41%
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno (4) 3%
Anghytuno (7) 5%
Anghytuno'n Gryf (2) 1%
Ddim yn gwybod (6) 4%
Caiff personél theatr eu briffio cyn unrhyw lawdriniaeth bob amser.
Cytuno'n Gryf (16) 12%
Cytuno (48) 35%
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno (25) 18%
Anghytuno (35) 26%
Anghytuno'n Gryf (7) 5%
Ddim yn gwybod (6) 4%
Mae sesiynau dadfriffio yn dilyn sifft neu restr yn gyffredin yn y theatrau llawdriniaethau hyn.
Cytuno'n Gryf (6) 4%
Cytuno (19) 14%
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno (29) 21%
Anghytuno (52) 38%
Anghytuno'n Gryf (21) 15%
Ddim yn gwybod (11) 8%
Gwaith dilynol ar theatrau
Sleid 22


[Rhestr wirio a briffiadau: sylwadau gan staff yn Sir Gaerfyrddin]
YTP/YCG – "Mae'r rhestr wirio yn cael ei chwblhau bob amser, ond dydy hynny ddim yn golygu ei bod yn cael ei chwblhau'n dda."
YTP/YCG– "Mae'r rhan fwyaf o bobl wedi croesawu'r rhestr wirio ond mae grwpiau o bobl sydd ond yn ei goddef"
YTP/YCG – "Mae'r brîff yn tueddu i gael ei gynnal gan y staff nyrsio yn gyntaf ac wedyn byddant yn trafod â'r anesthetydd a'r llawfeddyg."
YCG – "Mae diffyg mewnbwn clinigol wedi bod yn broblem fawr."
YTP – "Mae'r rhestr wirio a'r briffiadau wedi digalonni staff theatr. Dim ond nhw sy'n cymryd rhan."
YCG – "Ni threfnir amseroedd penodol ar gyfer briffiadau. Gall hyn achosi oedi."
YCG – "Ni chaiff llawer o gwestiynau eu hateb. Cânt eu ticio ond nid ydynt wedi cael eu gwirio."
YCG – "Rydyn ni'n gweithio'n rheolaidd gyda'r un nyrsys, felly mae'n annifyr gorfod cyflwyno eich hun. Does neb yn cymryd y peth o ddifrif."
YTP – "Ni chynhelir briffiadau fel y cyfryw. Cânt eu cynnal yn yr adran wroleg."
YCG – "Dim ond Theatr 1 sy'n cynnal briffiadau."
YTP – "Mae llawfeddygon ac anesthetyddion fel arfer yn cymryd rhan. Mae un neu ddau yn gwrthod."
YTP – "Mae'r rhestr wirio yn cael ei chwblhau'n drylwyr yma". "Mae un llawfeddyg yn benodol yn eistedd i lawr gyda'r staff cyn y rhestr ac yn trafod popeth."
Sleid 23


[Rhestr wirio a briffiadau: sylwadau gan staff yng Ngheredigion]
"Mae'r rhestr wirio yn cael ei chwblhau, ond nid yn dda iawn."
"Mae rhai llawfeddygon yn mynnu hynny, sy'n wych"
Mae un llawfeddyg i fod i wneud cyflwyniad yn ystod y brif rownd ar restr wirio WHO a briffiadau. Mae eisoes wedi paratoi fideo.
"Mae angen hyrwyddo tystiolaeth i ddangos bod y rhestr wirio yn gweithio."
"Mae angen i ni roi pŵer i'r nyrsys beidio â galw am gleifion nes bod briffiad wedi'i gynnal."
"Mae rhai llawfeddygon yn wych. Er mwyn gwella, mae angen rhywun i arwain y gwaith."
"Rhaid cael cefnogaeth gan bawb."
"Rydyn ni'n defnyddio ffurflen genedlaethol y rhestr wirio ac nid ydym wedi ei newid."
"Mae'n faich pryfoclyd. Dyw e ddim yn gweithio i ni gan ein bod ni'n fach ac felly rydyn ni'n cyfathrebu'n dda."
"Mae'r cyflwyniadau yn ddi-werth – yr un aelodau o staff sydd gennym ni ar ein rhestrau bob amser."
"Does neb ar gael i arwain".
Sleid 24



[Rhestr wirio a briffiadau: sylwadau gan staff yn Sir Benfro]
"Mae pawb yn gwrando."
"Rydym yn cynnal ymgyrch o'r enw 'Talk it don't just tick it' "
"Maen nhw'n siarad am gyflwyno briffiadau ond nid ydyn nhw'n digwydd ar hyn o bryd."
"Gall hyn fod yn beth da ond rydym wedi'i chael hi'n anodd rhoi'r trefniadau ar waith."
"Rydym wedi ystyried barn cleifion ar y rhestr wirio."
"Rydym yn gwneud hyn ar gyfer pob achos ond dydyn ni ddim yn gwneud y darn ar y diwedd yn dda iawn."
"Mae uwch staff wedi bod yn bresennol i arsylwi'r rhestr wirio."
"Gall presenoldeb mewn briffiadau fod yn broblem."
"Mae'r uned llawdriniaethau dydd yn arbennig o dda o ran cwblhau'r rhestr wirio."
"Mae briffiadau'n dda cyn belled â'u bod yn cael eu cynnal yn ddigon cynnar."
"Rydym wedi adolygu'r ddogfen briffio" – Llawdriniaethau dydd
Sleid 25

## 1B. Er bod ymyriadau diogelwch allweddol yn cael eu defnyddio fwyfwy mewn theatrau, gwelir yn aml na chânt eu defnyddio'n gywir

Mae'r BI yn adrodd ar fwy o ddigwyddiadau yn ymwneud â theatrau nag yn y gorffennol, ond gall wella trefniadau i ddysgu o ddigwyddiadau.

- Anogir staff i adrodd ar ddigwyddiadau ond mae angen i'r BI wella'r ffordd y mae'n rhoi aborth i staff sy'n adrodd ar ddigwyddiadau.
- Dysgu o ddigwyddiadau/pryderon oedd y maes a gafodd y sgôr isaf yn asesiad Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru o'r llwybr llawfeddygol yn 2013-14.

**Defnyddir gwybodaeth o adroddiadau ar ddigwyddiadau i wneud gofal cleifion yn fwy diogel yn y theatrau llawdriniaethau yn yr ysbyty hwn.**





Sleid 26

## 1B. Er bod ymyriadau diogelwch allweddol yn cael eu defnyddio fwyfwy mewn theatrau, gwelir yn aml na chânt eu defnyddio'n gywir

Caiff mwy o adroddiadau ar ddigwyddiadau eu cyflwyno nawr nag yn y gorffennol. Nid yw hyn yn beth gwael o reidrwydd. Efallai ei bod yn dangos bod staff yn fwy parod i adrodd ar ddigwyddiadau.

Lluniodd Swyddfa Archwilio Cymru y siart rheolaeth proses ystadegol hon gan ddefnyddio adnodd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r siartiau hyn yn ein helpu i wahaniaethu rhwng newidiadau arwyddocaol, dilys yn amlder adroddiadau ar ddigwyddiadau a newidiadau a achosir gan amrywiadau cyffredin.




*Ffynhonnell: NRLS*


**Sleid 27**


[Sylwadau gan staff: Digwyddiadau]
Sir Gaerfyrddin
YTP/YCG – "Mae adroddiadau chwarterol ar brosesau adrodd ar ddigwyddiadau."
YTP – "Mae'n anodd iawn meddwl am enghreifftiau o bethau sydd wedi newid o ganlyniad i adroddiadau ar ddigwyddiadau."
YCG – "Mae'n cymryd tua 45 munud i lunio adroddiad."
Sir Benfro
"Mae pob digwyddiad yn cael ei gofnodi ond dwi ddim yn ymwybodol bod unrhywbeth yn cael ei ddysgu o hynny."
YTP – "Dydyn ni byth yn cael unrhyw adborth." YCG – "Dydyn ni ddim yn cael unrhyw adborth o gwbl."
"Maen nhw jyst yn diflannu."
Nid yw'r unigolion dan sylw yn cael yr holl wybodaeth bob amser."
"Dydyn ni byth yn cael unrhyw adborth."
"Dydyn ni ddim yn cael cyfle i glywed canlyniadau unrhyw adborth yn aml."
Ceredigion
"Mae ffurflenni'n cael eu llenwi mor aml â phosibl. Does dim llawer o adborth."
Gwaith dilynol ar theatrau
Sleid 28

## 1C. Mae rhai safbwyntiau negyddol ynglŷn â lefelau staffio a chyfathrebu, ond cafwyd rhai sylwadau cadarnhaol am waith tîm a'r diwylliant diogelwch

Mae'r BI wedi cymryd rhai camau i fonitro lefelau staffio ond mae angen iddo wneud mwy i brofi safbwyntiau ynglŷn a phrinder staff mewn nifer o ddisgyblaethau.

- Mae'r BI wedi cymryd rhai camau i fonitro lefelau staffio mewn theatrau yn well (e-amserlennu, gwaith monitro penodol yn erbyn canllawiau staffio ac adroddiadau staffio misol yn Sir Gaerfyrddin).
- Dangosodd yr arolwg staff farn gymysg ar lwyth gwaith theatrau.




**Gwaith dilynol ar theatrau** **Slide 29**

## 1C. Mae rhai safbwyntiau negyddol ynglŷn â lefelau staffio a chyfathrebu, ond cafwyd rhai sylwadau cadarnhaol am waith tîm a'r diwylliant diogelwch


- Mynegodd staff theatrau farn ar brinder staff:
  - Yn enwedig yn Sir Gaerfyrddin – nid oes aelodau o staff newydd wedi'u penodi i gymryd lle rhai aelodau o staff sydd wedi gadael a cheir rhai pryderon am y cymysgedd sgiliau a'r ffaith nad oes digon o seibiannau.
  - Ceredigion – cyfeiriwyd at lefelau uchel o absenoldeb.
- Dywedwyd wrthym yn aml fod lefelau staffio isel ar y wardiau yn amharu ar effeithlonrwydd theatrau.
  - Yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion yn bennaf.
  - Ôl-groniadau mewn adrannau ymadfer gan nad yw staff y wardiau yn barod i dderbyn cleifion.
- Mae problemau lleol o ran argaeledd anesthetyddion a phorthorion.
  - Ymarferwyr adrannau llawdriniaethau yn gwneud gwaith porthorion yn YCG.
  - Codwyd problemau o ran argaeledd anesthetyddion yn YCB ac YTP.
- Ymddengys fod diffyg gwaith cynllunio olyniaeth ar gyfer staff theatr yn risg ymhob ardal.


Sleid 30

## 1C. Mae rhai safbwyntiau negyddol ynglŷn â lefelau staffio a chyfathrebu, ond cafwyd rhai sylwadau cadarnhaol am waith tîm a'r diwylliant diogelwch.

Mae rhai agweddau cadarnhaol ar waith tîm a'r diwylliant diogelwch mewn theatrau ond mae cyfathrebu yn peri problem o hyd ac mae safbwyntiau cymysg ar forâl.

- Dangosodd yr arolwg staff safbwyntiau cadarnhaol ar waith tîm a'r diwylliant diogelwch ond safbwyntiau cymysg ar forâl.
- Dangosodd yr arolwg staff fod llawer o ymatebwyr yn teimlo nad oeddent yn cael digon o wybodaeth am faterion yn ymwneud â theatrau.
- Ymhob un o'r tair sir, nid oes grwpiau defnyddwyr theatrau ar gael neu nid ydynt wedi cwrdd ers cryn amser.
- Anaml y cynhelir cyfarfodydd staff.
- Dywedodd staff wrthym fod angen i reolwyr fod yn fwy gweladwy ac mae'r ffaith nad oes rheolwr ar gael ym Mronglais wedi achosi problemau penodol [mae aelod o staff wedi'i secondio i'r swydd ers yr archwiliad].


[Ffocws ar ddiwylliant diogelwch]
Byddwn yn teimlo'n ddiogel yn cael fy nhrin fel claf yma.
Cytuno'n Gryf (39) 28%
Cytuno (71) 51%
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno (20) 15%
Anghytuno (6) 4%
Anghytuno'n Gryf (-)
Ddim yn gwybod (2) 1%
Mae diogelwch cleifion yn cael ei atgyfnerthu'n gyson fel y flaenoriaeth yn y theatrau hyn.
Cytuno'n Gryf (49) 36%
Cytuno (64) 46%
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno (15) 11%
Anghytuno (7) 5%
Anghytuno'n Gryf (3) 2%
Ddim yn gwybod (-)
Gwaith dilynol ar theatrau
Sleid 32



[Ffocws ar gyfathrebu, gwaith tîm a morâl]
Mae morâl yn uchel yn y theatrau llawdriniaethau.
Cytuno'n Gryf (3) 2%
Cytuno (30) 22%
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno (39) 29%
Anghytuno (38) 28%
Anghytuno'n Gryf (27) 20%
Ddim yn gwybod (-)
Teimlaf fy mod yn cael fy hysbysu'n llawn am faterion theatr yn yr ysbyty hwn.
Cytuno'n Gryf (4) 3%
Cytuno (30) 22%
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno (30) 22%
Anghytuno (45) 33%
Anghytuno'n Gryf (29) 21%
Ddim yn gwybod (-)
Ar y cyfan, mae'r staff yn y theatr hon yn gweithio'n dda fel tîm (h.y. y staff i gyd, nid dim ond staff theatr, ond staff meddygol hefyd).
Cytuno'n Gryf (24) 17%
Cytuno (79) 57%
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno (20) 15%
Anghytuno (14) 10%
Anghytuno'n Gryf (1) 1%
Os oes angen, teimlaf fy mod yn gallu anghytuno ag uwch aelodau o'r tîm.
Cytuno'n Gryf (28) 20%
Cytuno (72) 53%
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno (21) 15%
Anghytuno (9) 7%
Anghytuno'n Gryf (7) 5%
Ddim yn gwybod (-)
Slide 33

## Strwythur Rhan 2

**Mae diffyg arweinyddiaeth ganolog a phroblemau mawr o ran data wedi bod yn rhwystrau sylfaenol i wella.**

2A. Ni roddwyd blaenoriaeth gorfforaethol i theatrau ac mae'r diffyg ysgogiad ac arweinyddiaeth ganolog hyn wedi bod yn rhwystr sylfaenol i wella.

2B. Ceir problemau mawr o ran data ac mae ymdrechion lleol i ysgogi gwelliant yn dioddef am nad oes digon o wybodaeth safonol ar gael.


Gwaith dilynol ar theatrau

Sleid 34

## 2A. Ni roddwyd blaenoriaeth gorfforaethol i theatrau ac mae'r diffyg ysgogiad ac arweinyddiaeth ganolog hyn wedi bod yn rhwystr sylfaenol i wella

- Mae gan y BI gynllun theatrau ond nid oedd staff yn ymwybodol ohono ac ni welsom unrhyw dystiolaeth i ddangos ei fod yn cael ei ddefnyddio er mwyn ysgogi gwelliannau.
- Mae cynlluniau gweithredu ar waith yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin (nid Ceredigion) ond mae wedi bod yn anodd rhoi'r cynlluniau hyn ar waith oherwydd newidiadau ymhlith rheolwyr.
- Ffurfiwyd grŵp theatrau ar gyfer y BI cyfan ond mae bellach wedi darfod.
- Dywedodd staff wrthym nad oedd digon o arweinyddiaeth ganolog ar gael ar gyfer theatrau.

**Gwaith dilynol ar theatrau** Sleid 35


[Arweinyddiaeth: sylwadau gan y staff]
Sir Gaerfyrddin
YCG - "Dydyn ni ddim yn gwybod beth yw'r cynllun ar gyfer y dyfodol."
YTP/YCG – "Dydw i ddim yn gwybod pwy yw'r swyddog gweithredol ar gyfer theatrau nac unrhyw rai o'r uwch reolwyr."
Sir Benfro
"Am fod strwythur y sefydliad wedi newid gryn dipyn dros y blynyddoedd diwethaf, mae'n anodd rhoi'r cynllun gweithredu ar waith."
Ceredigion
"Does dim cyfeiriad o ran theatrau."
"Mae angen arweinwyr clinigol cryf arnom i wneud gwelliannau."
"Does neb yn ein harwain."
"Weithiau dydyn ni ddim yn gwybod pwy sy'n gyfrifol o un diwrnod i'r llall."
"Mae'n anodd iawn gwybod â phwy y dylen ni gysylltu."
Sleid 36

## 2B. Ceir problemau mawr o ran data ac mae ymdrechion lleol i ysgogi gwelliant yn dioddef am nad oes digon o wybodaeth safonol ar gael

- Mae modiwl theatrau Myrddin wedi cael ei roi ar waith ond dywedodd staff fod rhai problemau mawr â'r system ac nid oedd y BI wedi llwyddo i ateb y cais am ddata ar gyfer yr archwiliad hwn.

- Mae data yn parhau i gael eu cofnodi ddwywaith oherwydd caiff gwybodaeth am sesiynau ei chofnodi ar bapur yn ogystal â system Myrddin. Cawsom wybod hefyd fod staff theatrau yn parhau i gofnodi data yn anghywir er gwaetha'r ffaith bod y tîm gwybodaeth canolog wedi llunio ffurflenni ac wedi cynnal sesiynau hyfforddi.

- Gwelsom rai enghreifftiau i ddangos bod data theatrau yn cael eu dadansoddi ond clywsom gan staff am waith llafurus a oedd yn cael ei gwblhau â llaw, anawsterau wrth lawrlwytho data ffynhonnell a diffyg ymddiriedaeth yn y canlyniadau.

Gwaith dilynol ar theatrau

Sleid 37

## 2B. Ceir problemau mawr o ran data ac mae ymdrechion lleol i ysgogi gwelliant yn dioddef am nad oes digon o wybodaeth safonol ar gael

- Dylid gallu cofnodi data'n awtomataidd ar Myrddin ond mae llawer o broblemau a chryn rwystredigaeth â'r swyddogaeth cofnodi.


- Mae modiwl theatrau Myrddin wedi bod o rywfaint o fudd o ran blaengynllunio sesiynau theatrau.

- Ceir ambell enghraifft lle defnyddiwyd data i wella gwasanaethau ond ni welwyd unrhyw dystiolaeth o gymariaethau rhwng ysbytai, theatrau, arbenigeddau na chlinigwyr unigol.

- Nid oes pwynt beio'r tîm gwybodaeth na staff y theatrau am y problemau sy'n gysylltiedig â'r system. Ni sefydlwyd dull effeithiol ar y cyd eto i sicrhau bod gwybodaeth dda ar gael yn hawdd er mwyn ysgogi gwelliannau mewn theatrau.

Gwaith dilynol ar theatrau

Sleid 38


[Data: Sylwadau gan staff o bob rhan o'r BI]
"Mae'r data y mae Myrddin yn eu rhoi yn gyfyngedig iawn, iawn."
"Mae'r holl amseroedd yn cael eu cofnodi ond dydyn ni ddim yn siŵr a oes unrhyw un yn defnyddio'r data hynny."
"Anaml iawn rydyn ni'n gweld unrhyw ddata."
"Rwy'n darparu data ond dydw i ddim yn cael unrhywbeth nôl."
"Does dim adborth i ddweud p'un a ydym yn effeithlon ai peidio."
"Dydyn ni ddim yn gwybod sut i gael data o system Myrddin."
"Yn aml iawn, rhaid i ni lenwi taflenni wrth gefn am nad ydyn ni'n gallu agor y system gyfrifiadurol."
"Rhag ofn y bydd problemau cyfrifiadurol, rydyn ni'n ysgrifennu popeth ar bapur hefyd."
"Mae'r system yn ddefnyddiol iawn er mwyn cynllunio a gweld beth sydd i ddod."
"Mae'n wych. Mae'n cynnwys yr holl lythyrau clinig a chanlyniadau sganiau CT, patholeg, biocemeg."
"Mae'r cyfrifiaduron yn araf iawn."
"Dydw i ddim yn cael unrhyw wybodaeth am fy rhestrau."
"Mae data ar lefel clinigwyr ond yn cael eu defnyddio pan fydd problem benodol."
Sleid 39

# Argymhellion i'r bwrdd iechyd

1. **Rhestr wirio Sefydliad Iechyd y Byd a briffiadau**:
   a. Dylai uwch staff nyrsio a staff meddygol dystio ac asesu'n feirniadol y defnydd a wneir o'r rhestr wirio a'r briffiadau yn rheolaidd. Dylid rhoi adborth adeiladol, er mwyn sicrhau bod manteision yr ymyriadau hyn fel cymhorthion i dimau ac nid dim ond rhestrau gwirio syml yn cael eu hyrwyddo.
   b. Ystyried defnyddio arfer da sydd ar waith ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf lle mae meddygon iau yn cynnal archwiliadau cudd o'r rhestr wirio a'r briffiadau.
   c. Dylid gofyn i lawfeddygon ac anesthetyddion sydd o blaid y rhestr wirio a'r briffiadau weithio fel pencampwyr i ennyn cefnogaeth eu cydweithwyr.
   d. Dylai timau theatrau gydweithio i deilwra'r rhestr wirio er mwyn ei defnyddio yn eu theatrau. Bydd hyn yn helpu i wneud y rhestr yn fwy perthnasol a dylid annog timau i sicrhau bod y rhestr wirio yn gweithio iddynt hwy.

Sleid 40

## Argymhellion i'r bwrdd iechyd

**2. Adrodd ar ddigwyddiadau a dysgu ohonynt**:

a. Defnyddio siartiau rheolaeth prosesau ystadegol yn rheolaidd er mwyn helpu i ganfod patrymau a thueddiadau o ran adrodd ar ddigwyddiadau.

b. Dylai'r tîm pryderon corfforaethol weithio gyda thimau theatrau o bob safle i gytuno ar gyfres o gamau gweithredu er mwyn ceisio gwella'r adborth a roddir i staff sy'n rhan o ddigwyddiadau ac atgyfnerthu'r trefniadau sydd ar waith i ddysgu o ddigwyddiadau.

**3. Lefelau staffio:**

a. Dylai asesiadau o lefelau staffio a gaiff eu cynnal yn gyson o fewn y Bwrdd Iechyd ystyried yn benodol p'un a oes sail i bryderon am brinder staff mewn theatrau ac, os oes angen, dylid cynyddu lefelau staffio er mwyn sicrhau diogelwch.

b. Dylai'r Bwrdd Iechyd gasglu data er mwyn mesur i ba raddau y mae oedi ar y wardiau yn effeithio ar theatrau, er mwyn llywio ystyriaethau ehangach y Bwrdd Iechyd ynglŷn â lefelau staffio wardiau.

c. Dylai pob safle aciwt weithio gydag Adnoddau Dynol i ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol er mwyn gwella trefniadau cynllunio olyniaeth o fewn timau theatrau.

Sleid 41

## Argymhellion i'r bwrdd iechyd

**4. Gwybodaeth am berfformiad theatrau:**

Fel blaenoriaeth, dylai'r BI gynnull grŵp, gydag aelodau o'r tîm gweithredol, staff theatr o bob safle a thîm Myrddin, er mwyn cydweithio i gyflawni canlyniad cyffredin, sef sicrhau bod gwybodaeth o ansawdd dda am berfformiad ar gael yn hawdd a'i bod yn cael ei defnyddio i wella theatrau.

**5. Ysgogiad ac arweinyddiaeth ganolog:**

a. Dylai'r BI gynnull grŵp theatrau proffil uchel ar draws y BI cyfan, a gaiff ei arwain gan arweinydd gweithredol penodol ar gyfer theatrau, a fydd yn sbarduno gwelliannau i theatrau ac yn rhannu gwersi i'w dysgu â'r sefydliad cyfan.

b. Dylid adfer y grwpiau defnyddwyr theatrau hefyd ymhob safle aciwt er mwyn gwella trafodaethau amlddisgyblaethol, ystyried data ar berfformiad ac ysgogi gwelliannau lleol i theatrau.

Sleid 42

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk